Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 48** **Haf 2019**



'O ARGLWYDD, clywais y sôn amdanat,
a gwelais dy waith, O ARGLWYDD.
Adnewydda ef yng nghanol y blynyddoedd,
datguddia ef yng nghanol y blynyddoedd,
ac yn dy lid cofia drugaredd.'

# *Dameg Mynwent Mercedes*

Wrth ymweld â chartrefi aelodau un o'r capeli oedd yn fy ngofalaeth cyrhaeddais dy gŵr pur llwyddiannus ei fyd. Roedd moethusrwydd ei gartref yn tystio i hyn. Beth oedd yn fy nharo'n syth oedd bod tri Mercedes Benz, oedd yn amlwg wedi gweld dyddiau gwell, yn 'tawel ymddadfeilio' o dan eu cwrlid o darpolin ar ddarn o dir wrth ochr ei gartref swel.

A dyma holi hynt a helynt y cerbydau a'u diwedd trist. Doedd y perchennog ddim hyd yn oed am gydnabod bod eu diwedd yn drist. Wedi teithio milltiroedd lu yn ei wasanaethu ar ei deithiau busnes daeth yr awr anorfod i'w diweddaru. Ac er bod yr injan yn dal i droi, heb losgi olew, penderfynodd eu tynnu oddi ar y ffordd a'u rhoi i orffwys hyd nes y deuai'r dydd y byddai rhywun yn dod heibio a fyddai'n gweld gwerth ynddynt ac a fyddai am eu prynu. Awgrymais fod ei gartref braidd yn ddiarffordd i rywun alw heibio ar hap a damwain.

Cytunodd.

Ond roedd yn falch bod y ceir yn dal i fod yno, yn rhan o'i hanes, yn gofnod o'i lwyddiant materol, yn sacrament o'i deithiau diflino i hyrwyddo'i fusnes. Rhywbeth yn perthyn i ddoe annwyl ei ieuenctid. A mynnai fod gwerth mawr i'r ceir. Roedden nhw'n 'Classics', meddai, ac os byddai unrhyw un oedd yn ymddiddori mewn ceir o'r fath yn eu gweld fe fydden nhw'n werth ffortiwn bryd hynny.

Roedd ei blant yn credu mai ffantasi hen ŵr oedd ei ymlyniad wrthynt. A doedd gan ei wyrion ddim diddordeb o gwbl yn ei ddiddordeb diniwed. Fe wyddai, meddai, y byddai'r ceir yn cael eu gwerthu neu'n cael eu rhoi ar y domen sgrap y funud y byddai dydd ei angladd drosodd.

****

Ar Radio Cymru y dydd o'r blaen cafwyd trafodaeth am ddyfodol capeli yng Nghymru. Ar dudalennau'r *Goleuad* yn nechrau mis Mehefin gwelwyd darogan mai 2034 fydd y flwyddyn y bydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru'n peidio â bod.

Ac fel perchennog y Mercedes, onid gwylio gyda hiraeth am yr hyn a fu ddadfeiliad araf ac anorfod ein sefydliadau a wnawn? Rhywbeth oeddynt a fu'n ddefnyddiol mewn oes a fu, i'w gwarchod gan yr hen bobl tra pery eu hoes, ond rhywbeth i'w hepgor mor fuan ag sy'n bosib pan dderfydd anadl o'u ffroenau. Ac fel roedd y gŵr yn twyllo'i hun fod gwerth mawr i'r cerbydau rhydlyd, hunan-dwyll sy'n peri i

lawer dybio y daw 'tro ar fyd' ac y daw rhywun heibio ar hap i werthfawrogi ac adnewyddu ein crefydda cyfoes.

A does dim ots faint o reolau y bydd cyrff fel CADW yn eu gosod, yn fympwyol bron, ar ein hadeiladau i amddiffyn y bensaernïaeth a etifeddwyd gennym. Y gwir yw y bydd y disgwyliadau hynny'n prysuro tranc y cyrff sy'n gyfreithiol â'r cyfrifoldeb am eu gwarchod!

Nid diogelu pensaernïaeth yw ein gwaith, er bod gennym gyfrifoldeb tuag at ein hadeiladau tra parhânt mewn defnydd. Buom, yn ystod y gwanwyn hwn, yn edrych ar yr hyn sy'n hanfodol ar gyfer parhad a ffyniant Eglwys Iesu Grist. A gwelsom nad adeiladau, defodau allanol, gwisgoedd clerigol, amseroedd oedfaon penodol sy'n diffinio hanfod eglwys. Ond pobl. Pobl mewn perthynas ag Iesu Grist trwy ras, ac edifeirwch a ffydd. Pobl lle mae gair Duw yn cael ei bregethu'n ffyddlon yn eu plith; a'r ordinhadau – Bedydd a Swper yr Arglwydd – yn cael eu gweinyddu'n ffyddlon yn eu plith, ac yn cael eu derbyn mewn ffydd.

Nid oes cynllun strategol, neu benderfyniad i fabwysiadu cynllun cenhadol arbennig fydd yn medru trawsffurfio'n sefydliadau dros nos. Creadigaeth yr Ysbryd Glân, yn Iesu Grist, er gogoniant y Tad yw'r eglwys, ac nid sefydliad, gwaddol oes a fu.

Dim ond pobl, fel chi a fi, yw Eglwys y Duw Byw. Pobl sy'n arddel ffydd arbennig, sy'n fodlon gweithredu gwerthoedd y ffydd honno, mewn byd sy'n ymddangos fel pe bai'n brysur ymfarbareiddio. Pobl sy'n caru Iesu Grist ydym. Pobl sy'n caru ein gilydd ydym. Pobl sy'n adnabod dawn yr ysbryd o'n mewn ac yn ein plith. Mewn gair, pobl Dduw.

A phan feddyliwn o ddifri am hyn, canfyddwn yn yr Eglwys Fore mai pobl, cymuned, cymdeithas (*koinonia*) oedd yn ymgorffori'r pethau hyn oeddynt hwythau hefyd. Ac o ddarllen y Testament Newydd gwelwn fod y llythyrau i'r eglwysi gwahanol yn rhannu'n naturiol rhwng 'Beth ydyn ni i fod i gredu?' a 'Sut ydyn ni i fod i fyw?'

A does dim yn wahanol i hyn ar hyd canrifoedd cred. Oherwydd mewn cymdeithas o ddisgyblion sydd am ddysgu gan eu meistr mae dysgu beth yw ystyr credu, beth yw ystyr ymddiried, beth yw bod yn amyneddgar, defnyddio ein doniau er adeiladaeth y Corff.

A'r gwahoddiad i chi a minnau yw caniatáu i Dduw greu o'n mewn, o fewn ein cymunedau, o fewn ein gwlad, ei Eglwys fyw, berthnasol, ac anorchfygol heddiw.

*Watcyn James*




**Oedfa Basg yr Ofalaeth, y Garn, 21 Ebrill**



**Pedwarawd Seion, oedfa'r Groglith, 19 Ebrill**

**Manylion Cyswllt y Gweinidog**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymu

## Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c

| | |
|---|---|
| 8 Medi | Oedfa'r Ofalaeth yn Seion, Capel Seion,<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch<br>Casgliad tuag at Feiciau Gwaed Cymru |
| 12 Medi | Y Grŵp Gwreiddiau yn ailddechrau<br>Festri'r Garn am 10.15 o'r gloch |
| 18 Medi | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd<br>Penfro – Carmel, Llanilar, am 1.30 o'r gloch |
| 30 Medi | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |


Gweler hefyd: www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter :@capelygarn

Os hoffech chi gael copi o lun cynulleidfa Oedfa Basg
yr Ofalaeth, cysylltwch â'r Golygydd.

## *Tudalen y Plant*

Wyt ti'n hoffi gwisgo dillad lliwgar? Pan oedd Joseff yn 17 oed, fe wnaeth Jacob, ei dad, roi siaced liwgar iawn iddo. Roedd Joseff wrth ei fodd gyda'i siaced newydd – ond doedd ei frodyr ddim yn hapus. Roedden nhw'n meddwl bod eu tad yn caru Joseff yn fwy nag roedd yn eu caru nhw. Ond mae Duw yn caru pawb yr un fath ac mae hefyd eisiau i ninnau fod yn garedig wrth bawb.




Lliwia siaced Joseff yn lliwiau llachar – a chofia fod yn garedig.

## *Agor y Llyfr*

Wrth i dymor yr haf ddirwyn i ben bydd ymweliadau criw Agor y Llyfr ag Ysgol Rhydypennau hefyd yn peidio. Ond ysbaid dros dro fydd y seibiant gan ein bod yn gobeithio cael dychwelyd unwaith eto i Ysgol Rhydypennau ym mis Medi.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon rydym wedi cael croeso parod gan yr ysgol, ac mae ein diolch i'r Prifathro, Mr Peter Leggett, a'r staff yn fawr. Ar gyfartaledd, rydym wedi ymweld â'r ysgol bob pythefnos yn ystod tymor yr ysgol.

Ac ers mis Medi rydym wedi 'actio' gyda'r plant hanesion am y Creu, Adda ac Efa, Noa, Abraham, Moses a'r Môr Coch, Cwymp Muriau Jerico, Samuel, Dafydd a Goliath a Jona. Mae wedi bod yn bleser neilltuol i weld brwdfrydedd y disgyblion a'r ffordd y maent yn cofio'r hanesion o un tro i'r llall. Ac mae eu hawydd i gymryd rhan yn y cyflwyniadau'n creu llawenydd yn ein plith ninnau hefyd.

Bu'n bleser cydweithio ag aelodau'r tîm o wahanol gapeli'r ardal. Ac mae'r cydweithio â thîm Agor y Llyfr yn Aberystwyth yn braf a hwylus. Mae'n dda cael clywed bod ardaloedd eraill yn ystyried sefydlu grwpiau Agor y Llyfr yn eu broydd hwythau hefyd.

Beth bynnag am hynny, fe fyddwn yn edrych mlaen i fis Medi ac yn ôl y Llawlyfr byddwn yn canolbwyntio ar hanesion o'r Testament Newydd ac am fywyd Iesu Grist drwy'r flwyddyn academaidd nesaf.

Diolch i'r tîm am eu ffyddlondeb.

Os oes diddordeb gennych mewn ymuno â thîm brwdfrydig sy'n cael llawer o bleser gyda'r plant ac yng nghwmni ei gilydd, gadewch i ni wybod. Yn wir, os ydym am ymestyn y gwaith i gynnwys ysgolion eraill yn yr ardal bydd angen mwy o bobl i rannu yn y gwaith. Mae wastad lle i groesawu aelodau newydd.

## *Gwreiddiau*

Dwi'm yn gwybod sut i ddweud hyn. Ond mi wna i drio fy ngorau!

Os na chawsoch gyfle i ymuno gyda'r grŵp Gwreiddiau, sy'n cyfarfod bob bore dydd Iau, dros baned am 10:15 cyn troi at drafodaeth ehangach wedi hynny, yr ydych wedi bod ar eich colled.

Mae'r trafod bob amser yn ddifyr gyda llawer o chwerthin iach a rhannu cwestiynau, ofnau, amheuon, cred a ffydd.

Peidiwch â'm credu i. Gofynnwch i rai o'r grŵp sy'n dod yn ffyddlon drwy fisoedd yr hydref a'r gaeaf, ac fe wnawn nhw ddweud cymaint o fudd y maent yn ei dderbyn o fod yng nghwmni ei gilydd ac yn sugno nerth o'r Gwreiddiau.

**Ond fydd o'n rhy ddwfn?**



Dim ond weithiau!

A dweud y gwir nid ydym i gyd yn nofio yn yr un dyfnderoedd, hyd yn oed pan fyddwn yn ymdrochi yn nŵr y môr. Bydd rhai'n gyfforddus ar y lan ac yn rhyfeddu at fawredd y môr, ac yn profi ei donnau'n golchi drostyn nhw. Bydd eraill yn taflu eu hunain i ddyfnderoedd yr eigion gan fwynhau'r tonnau a'r dyfnder. Ond nid oes un yn ateb dros y llall ar ba lefel y dylai sblasio!

**Dwi ddim wedi bod mewn rhywbeth tebyg o'r blaen.**

Ond roedd yna adeg, unwaith, pan nad oeddech chi erioed wedi bod ar awyren. Ac nid oeddech yn gyrru car, unwaith. Nac yn M&S, Aber, unwaith … Mae wastad cyfle i wneud rhywbeth newydd am y tro cyntaf. Felly, beth am ymuno efo ni ym mis Medi am y tro cyntaf?

**Ond dwi ddim isio dweud dim byd – fyddwn i ddim am ymddangos yn anwybodus**.

Gadewch i mi eich sicrhau na fydd neb yn gofyn i chi gyfrannu mwy nag yr ydych yn gyfforddus yn ei gyfrannu. Does dim cwestiynau twp erioed wedi cael eu gofyn yn y grŵp. Cafwyd sawl ateb annigonol, ond byth, erioed, gwestiwn diwerth. Dim ond cwestiynau a phrofiadau sydd gennym. Ac am bob cwestiwn sy'n cael ei ofyn fe fyddwch yn canfod fod yna bobl eraill oedd hefyd ag ofn gofyn yr un cwestiwn. Bydd rhai yn y grŵp wedi bod yn chwilio am atebion ers oes ac wedi cael ateb oedd yn foddhaol i'w henaid. Bydd eraill yn dal i fod yn ansicr am yr atebion.

**Beth os nad ydw i'n cytuno gyda'r atebion?**

Wel, fydd neb yn meddwl llai ohonoch. Rydyn ni i gyd yn gorfod gweithio allan drosom ein hunain ystyr yr Ysgrythurau. Ond rôl arweinydd y grŵp yw ceisio egluro, mor syml ac mor llawn, beth mae'r Beibl yn ei ddweud a sut y mae ffrwd eang dysgeidiaeth Gristnogol wedi deall y testunau. Mae'n dipyn o her mewn gwirionedd.

Beth yr ydym am ei wneud yw ailddarganfod ein Gwreiddiau.

Weithiau byddwn yn gweld bod pobl wedi gwrthod cysgod neu rith o beth yr oeddynt wedi tybied y dylai'r neges Gristnogol fod. Daw'n dipyn o syndod weithiau i ganfod ein bod wedi gwrthod rhith nad oedd yn perthyn i'r Ysgrythurau.

Archwilio'r gwreiddiau yw'r nod. Wedi'r cyfan, o'r Gwreiddiau y daw cadernid, maeth a bywyd. Nid chwilio am gytundeb yw diben y cyfarfod.  Mae cred a ffydd yn rhywbeth rhyngom ni ein hunain a'r Arglwydd. A gwaith yr Arglwydd Dduw yw 'agor i ni'r Ysgrythurau/ Dangos i ni geidwad dyn'.

Felly, rhowch o yn eich dyddiadur.

Bydd y Grŵp Gwreiddiau'n cyfarfod nesaf ar 12 Medi. Edrychwn ymlaen i'ch gweld. Ac os bydd yn rhaid ychwanegu bwrdd ychwanegol a phrynu rhagor o goffi a bisgedi ...

Byddwn yn falch o gael eich cwmni.

## *Y Gymanfa Ganu*

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yng Nghapel Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth eleni. Arweiniwyd Cymanfa'r Plant gan Mrs Llio Penri, y Garn, gyda Mrs Mary Jones-Morris yn cyfeilio. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan blant ysgolion Sul Capel Seion a Phen-llwyn, a chafwyd cyflwyniad yn seiliedig ar un o emynau'r detholiad, sef 'Y mae gennyf drysor'. Yn dilyn cyfres o gliwiau, fel a geir ar helfa drysor, fe'n cyfeiriwyd at nifer o adnodau a hanesion Beiblaidd am drysor. Fe'n hatgoffwyd bod newyddion da'r Efengyl yn drysor gwerthfawr, trysor sy'n fwy gwerthfawr na llawer o aur coeth, ac yn wahanol i aur y byd ni ellir ei ddinistrio na'i gipio gan ladron. Bydd cael gafael yn nhrysor yr Efengyl yn golygu mwy na dim byd arall i'r sawl a fydd yn ei gael. Fe'n hatgoffwyd o adnod yn llyfr y Diarhebion sy'n ein hannog, "Os byddi'n ceisio doethineb fel arian ac yn chwilio amdani fel am drysor wedi'i guddio, yna byddi di'n deall sut i barchu'r Arglwydd a byddi'n dod i wybod am Dduw."

Cawsom gyfle yn y Gymanfa, dan lywyddiaeth Miss Joyce Howells, i ganu clodydd yr Arglwydd. Yn ogystal â mwynhau cyfraniadau plant Ysgol Sul Unedig Bow Street ac ysgolion Sul eraill yr ardal, cawsom anerchiad difyr gan y Parch. Peter Thomas ar hanes rhyfeddol Dafydd a Goliath. Yn wir, bu pawb a fynychodd Gymanfa'r bore yn brysur drwy'r gwasanaeth, nid yn unig yn canu ond hefyd yn cyfrannu synau a symudiadau wrth i'r Parch Peter Thomas adrodd yr hanes cyfarwydd mewn dull ffres a newydd.

Llywyddwyd Cymanfa'r Oedolion yn yr hwyr gan y Parch. Judith Morris, gyda'r Dr Rhidian Griffiths wrth yr organ, a chafwyd canu eneiniedig dan arweiniad Mr Geraint Roberts, Prestatyn.

Cafwyd Cymanfa lwyddiannus unwaith yn rhagor, a braf yw cofio mai un o ardal Pen-llwyn a Chapel Seion, sef Ieuan Gwyllt, oedd sylfaenydd y Gymanfa. Wrth i ni edrych yn ôl ar y Gymanfa, boed i eiriau Ieuan Gwyllt fod yn destun myfyrdod a rhyfeddod wrth i ni feddwl am yr Arglwydd Iesu Grist a rhyfeddod Ei berson: "Dyma holl drysorau Duwdod yn y cnawd".

*Delyth Davies / Gol.*



*Plant ysgolion Sul Capel Seion, Pen-llwyn ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yn cymryd rhan yn y Gymanfa*



## *Pen-llwyn*

**Gwasanaeth Teuluol**

Ar 26 Mai cynhaliwyd gwasanaeth teuluol yng Nghapel Pen-llwyn, a braf oedd cael cwmni'r plant, eu rhieni a rhai cyfeillion yn yr oedfa ar fore Sul. Plant yr Ysgol Sul gymerodd y rhannau arweiniol ac yna, yn ystod y gwasanaeth, rhoddodd y Gweinidog nifer o heriau a thasgau i'r gynulleidfa. Braf oedd gweld pawb o bob oedran yn cydweithio'n hapus wrth geisio datrys yr amrywiol heriau a thasgau – roedd yna waith tîm go iawn i'w weld yn festri Pen-llwyn. Daeth dameg y Tŷ ar y Graig a'r Tŷ ar y Tywod yn fyw iawn, wrth i ni weld clipiau fideo o'r ddameg. Roedd pwysigrwydd adeiladu ein bywydau ar sylfaen gadarn yr Efengyl yn neges glir i bob oedran.

**Y Parch Griffith Jones**

Trist oedd derbyn y newyddion am farwolaeth y Parch. Griffith Jones ar 8 Mehefin. Bu'n weinidog ar nifer o eglwysi'r ardal yn ystod y chwedegau a'r saithdegau, cyn symud o'r ardal i barhau ei weinidogaeth yn rhannau deheuol y sir.

Ym 1968, gadawodd eglwysi Nasareth, Rehoboth a'r Graig, a dod yn weinidog i gapeli Pen-llwyn, Dyffryn, Aber-ffrwd, Seion a Phisgah. Wedi dros ddegawd fel gweinidog ar yr eglwysi hyn, ymadawodd ag Eryl, Capel Bangor, a symud i Aberaeron, lle bu'n gweinidogaethu yn eglwysi'r Tabernacl, Aberaeron; Bethel, Aber-arth; Tan-y-bryn, Ffos-y-ffin a Llanarth. Roedd Mr Jones yn ŵr addfwyn, hynaws a boneddigaidd a roddai bwyslais ar bregethu'r Gair, ac roedd yn un a fyddai'n paratoi ei bregethau'n ofalus, gan eu traddodi gyda didwylledd a diffuantrwydd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i weddw, Mrs Margaret Jones, a chyda Dilwyn ac Arwyn a'u teuluoedd.

*Delyth Davies*

## *Seion*

Cynhaliwyd Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol yn Seion ddydd Sul, 19 Mai. Cefnogwyd yr achlysur gan aelodau'r eglwys, yr ysgol Sul a ffrindiau o'r gymuned. Wedi paned o goffi, cyflwynwyd yr apêl am eleni, sef diogelu bywydau mamau beichiog yn Sierra Leone drwy ddarparu gwasanaeth iechyd priodol mewn canofannau iechyd er mwyn lleihau nifer y mamau beichiog sy'n marw cyn geni eu plant.

Ar ddiwedd y cinio ymddangosodd teisen ben-blwydd hardd iawn ar y bwrdd o waith Magdalen ac Olwen i ddathlu pen-blwydd un o ffyddloniaid oedfaon ac ysgol Sul Seion, sef Mrs. Megan Lloyd, Ty'n Coed, yn 100 oed. Bydd ei chyfraniad at y drafodaeth yn nosbarth yr oedolion bob amser yn dangos ei bod wedi paratoi'n ofalus drwy ddarllen y wers yn y gwerslyfr ymlaen llaw. Bu Mrs Lloyd yn athrawes yn yr ysgol Sul ac yn drysorydd am flynyddoedd. Mae hi hefyd yn aelod ffyddlon o Gymdeithas y Paith a Sefydliad y Merched yn y pentref. Dymunwn iechyd a hapusrwydd iddi i'r dyfodol a'r fraint o gael ei chwmni eto ar y Sul am flynyddoedd. Fe'i cyfarchwyd gan y Parchedig Watcyn James gan ddymuno pob bendith a hapusrwydd iddi i'r dyfodol.

Ddydd Sul, 2 Mehefin, llongyfarchwyd Eos Dafydd ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn cael yr ail yng ngystadleuaeth y ddeuawd. A'r un cyfarchion i Iola Lloyd Hughes a Meia Owens ar eu llwyddiannnau hwythau yn Sioe Aberystwyth.

*Ina Tudno Williams*

## *Capel y Garn*

Llongyfarchiadau calonnog i'r canlynol:

Vernon Jones ar ennill ar gystadleuaeth y cywydd yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid;

Ffion Evans am ennill yr ail wobr yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Geraint George yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd;

Medi Jones-Jackson ar ei chyfrol newydd i blant, *Genod Gwych a Merched Medrus* (Y Lolfa)*;*

Siwan Hayward ar dderbyn OBE am ei chyfraniad i wasanaethau trafnidiaeth a phlismona gyda Transport for London.

Croeso cynnes hefyd i Robin a Jennifer Clark, tenantiaid newydd y Tŷ Capel, gan obeithio y byddant yn cartrefu'n fuan yn ein plith.

## *Rhestr Flodau'r Garn*

| **Gorffennaf** | **Awst** | **Medi** |
|---|---|---|
| 7 Dwysli Williams | 4 Noddfa | 1 Elina a Mary |
| 14 Gaerwen | 11 Gaerwen | 8 Seion |
| 21 Marjorie Hughes | 18 Noddfa | 15 Marian Hughes |
| 28 | 25 | 22 |
| | | 29 Eryl |

## Gorffennaf

***Blaenor y mis: Alan Wynne Jones***

***I gyfarch wrth y drysau: Ann Jones***
***Eddie Jenkins***

| | |
|---|---|
| 7 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Parch. Ddr Goronwy Prys Owen |
| 14 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Parch. Ifan Mason Davies |
| 21 | Oedfaon dan arweiniad y Gweinidog<br>Oedfa gymun yn y Garn am 10 o'r gloch<br>Cinio cymdeithasol i ddilyn yng Nghrefftau Pennau – enwau i Alan Wynne Jones<br><br>Oedfa anffurfiol ym Methlehem, Llandre, am 5 o'r gloch |
| 28 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |

**Diolch**

Dymuna Gaenor Hall, Minafon, Dole, ddiolch yn gynnes iawn am gyfeillgarwch ffrindiau a theulu ac am y llu o negeseuon, ymweliadau, cardiau a chyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Eric.

## Awst

***Blaenor y mis: Vernon Jones***

***I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams***
***Marian B Hughes***

| | |
|---|---|
| 4 | Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa |
| 11 | Oedfa gymun am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 18 | Oedfa am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa |
| 25 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad Miss Beti Griffiths |



*Cymdeithas Chwiorydd y Garn yn cymdeithasu*
*yng Nghrefftau Pennau*

## Medi

***Blaenor y mis: Marian B Hughes***

***I gyfarch wrth y drysau: Bryn Roberts***
***Elizabeth Jones***

| | |
|---|---|
| 1 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Parch. Ddr Goronwy Prys Owen |
| 8 | Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog<br>Seion, Capel Seion, am 10 o'r gloch |
| 10 | Pwyllgor Swyddogion y Garn<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 11 | Grŵp Help Llaw<br>Festri'r Garn am 2 o'r gloch |
| 12 | Grŵp Gwreiddiau'n ailddechrau<br>am 10.15 o'r gloch yn Festri'r Garn |
| 13 | Swper Cynhaeaf y Garn<br>Ysgoldy Bethlehem am 6 o'r gloch |
| 15 | Oedfa am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad Dr Rhidian Griffiths |
| 22 | Oedfa gymun am 10 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 29 | Oedfa dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch |
| 30 | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |

## *Gweddi am adnewyddiad*

### Gweddi Habacuc

O ARGLWYDD, clywais y sôn amdanat,
a gwelais dy waith, O ARGLWYDD.
Adnewydda ef yng nghanol y blynyddoedd,
datguddia ef yng nghanol y blynyddoedd,
ac yn dy lid cofia drugaredd.
(Habacuc 3:2)

Arglwydd Dduw,

Crëwr popeth byw; cynhaliwr popeth sydd;
cyflawnwr dy amcanion perffaith dy hun.

Diolchwn mai ynot ti yr ydym ni'n byw, yn symud ac yn bod.

O Dad trugarog, fe wnest ti ein caru ni cyn ein bod.

Cyn ein bod, cyn bod unrhyw beth yn bod, yr oedd yn dy fwriad i anfon Iesu Grist i fod yn Waredwr i'r byd, yn brynwr i'r methdalwr euog, yn eiriolwr i'r tresmaswr ger dy fron.

Diolch ei fod wedi dod, yn yr amser addas, wedi ei eni o wraig, o dan y ddeddf, i gyflawni dy ragluniaeth, dy addewidion drwy'r proffwydi gynt.

Ac fe roddaist dy Ysbryd Glân, yn enw Iesu Grist. Daeth Ef yn esboniwr i'r ddynol-ryw o'th allu, a'th serch tuag atom.
Daeth fel nad syniad, neu ddychymyg, neu ddyfaliad ydwyt.
Diolch ei fod wedi dod i'n selio â blaenffrwyth dy gymod ac addewid o'r gogoniant fydd yn eiddo i ni ryw ddydd.

Diolch dy fod wedi creu Eglwys trwy bregethiad y Gair a thrwy sêl ac arwyddion Bedydd a Swper yr Arglwydd.

Os ydym yng Nghrist, os ydym trwy ras yn eiddo i ti, os ydym yn gwybod am faddeuant ein pechodau, diolch ein bod hefyd yn eiddo i'r corff unigryw hwnnw sy'n dibynnu mewn ffordd gwbl unigryw arnat ti am ei greadigaeth, ei gynhaliaeth a'i ddyfodol, sef Eglwys Iesu Grist.

Maddau i ni ein bod yn meddwl ar brydiau mai ein capel ni ydyw, ein henwad ni, ein trefniadaeth ni yw dy Eglwys.

Yr ydym yn galaru o'th flaen, Arglwydd, ein bod mor oer ein serch, mor fud ein mawl, mor aneglur ein dealltwriaeth, mor arwynebol ein profiad ohonot.

Trugarha wrthym. Trugarha wrth ein broydd. Trugarha gan dywallt dy Ysbryd Glân arnom unwaith eto.

Duw ein ddoe, Duw ein presennol, yr ydym yn dymuno dy Arglwyddiaeth a'th ras i weithio ynom i'r dyfodol hyd nes y cyflawnir dy holl fwriadau adnewyddol i'r greadigaeth. Adnewydda ni.

Yn dy ddig cofia drugaredd.

Yn ein pellhau oddi wrthyt, cofia dy addewid i adeiladu dy Eglwys.

Yn ein hofnau a'n gwendid cofia dy allu gostyngedig a'th drugaredd gorchfygol.

Bywha ni Arglwydd. Bywha ni! Adfer ni!

Arglwydd, clyw ein gweddi,
yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Heiriolwr. Amen.

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*




Ar brynhawn braf o wanwyn ar 9 Ebrill, aeth un ar ddeg o’r aelodau i fwynhau te prynhawn yn Llety Ceiro, Llandre.

Estynnodd Eiriona groeso i bawb, a chroeso arbennig i’r gŵr gwadd am y prynhawn, sef y Parchedig Elwyn Pryse. Ar ôl mwynhau’r wledd ar y byrddau, bu ef yn ein diddanu drwy adrodd storïau difyr a hwyliog am ei ddyddiau cynnar yn Ysbyty Ystwyth a Chwmystwyth.

Roedd pawb wedi cael prynhawn wrth eu bodd, ac roedd yn ddiweddglo hyfryd i dymor Cymdeithas y Chwiorydd am eleni.

*Carys Briddon*

## *Grŵp Help Llaw – Capel y Garn*

Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu harian mân yn y botel yn y festri i'r elusen Water Aid. Casglwyd £80 dros y flwyddyn.

Fe fydd y Grŵp Help Llaw yn ailddechrau bnawn Mercher, 11 Medi, am 2 o'r gloch.



***Aelodau o Grŵp Help Llaw Capel y Garn yn cyflwyno nwyddau i Malcolm Dye, cynrychiolydd Banc Bwyd Jiwbilî, Penparcau***

**Diolch**

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'm cyd-olygydd hynaws Dewi G Hughes am bob cymorth gyda chynhyrchu a dosbarthu 'Gair o'r Garn' ers ei sefydlu yn ôl yn 2001.
Pob dymuniad da, Dewi, ar dy 'ymddeoliad'!

## *Byd yn Dod i Ben – Ffion Evans*



Llwyddodd fy nghân wreiddiol, 'Byd yn Dod i Ben', i gipio'r ail wobr yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Geraint George, Eisteddfod yr Urdd 2019, am waith cyfathrebu ar bwnc amgylcheddol.

Mae'r gân yn cyfathrebu materion a phryderon i wneud â'n hamgylchedd gan dynnu sylw at broblemau lleol megis llifogydd arfordirol, a phroblemau byd-eang megis newyn.

Diweddglo optimistaidd sydd i'r gân, wrth ddatgan bod yr haul yn dal i wenu a bod yna ddal amser i ni achub ein hamgylchedd a sicrhau byd glân a gwyrdd i'r genhedlaeth nesaf.

Bydd y gân yn cael ei rhyddhau yn fuan a bydd modd gwrando iddi ar y we, ar Spotify, iTunes, YouTube ayyb. Yn y cyfamser, dyma ychydig o linellau o'r gân:

> "Ma'r môr yn dod mewn i'r tir,
> Fydd na'm lle ar ôl i grwydro.
> Ma'r glaw yn arllwys dros y byd,
> Fydd na'm lle ar ôl i guddio.
> Yn fy mhen, ma'r byd yn dod i ben."

Byddaf yn parhau i gyfathrebu materion amgylcheddol pan fyddaf yn mynd i astudio Gwyddorau Amgylcheddol ym mhrifysgol Manceinion ym mis Medi.

*Ffion Evans*

## *Genod Gwych a Merched Medrus – Medi Jones-Jackson (Y Lolfa)*




Dyma lyfr newydd bywiog a deniadol i ferched (a bechgyn) o bob oed gan Medi Jones-Jackson. Daw Medi o Lanrwst yn wreiddiol, ond mae hi a'i theulu wedi ymgartrefu ym mhentref Bow Street ers rhai blynyddoedd. Mae Medi'n fam brysur i ddau o blant, ac yn ddiweddar symudodd i swydd newydd gyda Hybu Cig Cymru. Yn gynharach eleni, fe gwblhaodd Farathon Paris, er budd Sefydliad y Galon.

Yn ei chyfrol ceir hanes 12 o ferched ysbrydoledig, yn cynnwys Betsi Cadwaladr, Tori James, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn, Betty Campbell a Haley Gomez.

Mae yma gyflwyniad perffaith i rai o ferched blaenllaw Cymru, a anelodd yn uchel, cyrraedd y brig a newid siâp ein cenedl.
Mae'r llyfr yn llawn hwyl, ffeithiau, posau, gweithgareddau, cartwnau a lluniau lliwgar.

Llongyfarchiadau, Medi!




**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Vernon Jones, y Garn

Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau,
Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **8 Medi** i'r golygydd:
Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
01970 828662
marian_hughes@btinternet.com